# Gwella trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru

## Fersiwn Gymunedol ac Ieuenctid

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




WG36694

# Cyflwyniad

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys trenau, bysiau a thacsis. Mae'n ein helpu ni i gyd i symud o gwmpas. Mae'n rhan fawr o fywyd yng Nghymru ac mae'n ein helpu ni â:

- mynd i'r ysgol a'r coleg;
- mynd i'r gwaith;
- mynd adref o gyngerdd neu noson allan;
- gwneud y siopa;
- ymweld â ffrindiau neu fynd ar wyliau.

Mae bod â thrafnidiaeth gyhoeddus dda:

- yn lleihau problemau â thraffig;
- yn lleihau llygredd aer;
- yn helpu pobl i gysylltu â gwasanaethau, ffrindiau a'r teulu;
- yn helpu busnesau i dyfu;
- yn dod â swyddi i ardal.

## Ein nod

Rydyn ni eisiau system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu bysiau a threnau, cerdded a beicio.

Rydyn ni eisiau i fwy o bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle eu ceir.

Rydyn ni eisiau lleihau llygredd aer ac amddiffyn yr amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r holl drafnidiaeth gyhoeddus:

- fod yn ddiogel;
- bod yn brydlon;
- bod yn rhywbeth y mae pobl yn ymddiried ynddo;
- helpu i leihau llygredd;
- diwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthoch chi am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i wella:

1. **Gwasanaethau bysiau lleol; a**
2. **Trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.**

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl fel nad ydyn ni'n gadael unrhyw beth pwysig allan.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fersiwn hawdd i bobl â dyslecsia ei defnyddio o:

TrafnidiaethGyhoeddus.Ymgysylltu2019@llyw.cymru



# Rhan 1 – Gwasanaethau bysiau lleol

**Pam fod angen newid arnon ni?**

Mae yna lawer o wahanol gwmnïau bysiau gwahanol ar draws Cymru. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gwneud rhyw **100 miliwn** siwrnai bob blwyddyn.

Ond mae llai o bobl yn defnyddio gwasanaethau bysiau bob blwyddyn.

Yn ôl adroddiadau, mae rhai o'r rhesymau pam dydy pobl ddim yn defnyddio bysiau'n rheolaidd (neu o gwbl) yn cynnwys:

- Dydy rhai ohonyn nhw ddim yn cysylltu'n dda â thrafnidiaeth arall, fel trenau;
- Dydy rhai bysiau ddim mor fodern, diogel ac ecogyfeillgar ag eraill;
- Weithiau mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau bysiau sydd ar gael;
- Dydy gwybodaeth ddim bob amser wedi'i diweddaru;
- Dydy bysiau ddim bob amser yn rhedeg i'r lleoedd y mae pobl angen iddyn nhw redeg;
- Dydy tocynnau ddim bob amser yn gweithio fel y mae pobl angen iddyn nhw weithio;
- Mae cost tocynnau'n rhy ddrud mewn rhai ardaloedd.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn gwella gwasanaethau bysiau i bawb.



# Cynnig 1

## Rydyn ni eisiau creu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth.

**Pam?**

Mae pob awdurdod lleol yn gofalu am fysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus arall yn eu hardal.

Mae hyn yn costio amser ac arian. Mae pob awdurdod lleol unigol yn perfformio llawer o'r un tasgau, er enghraifft, prynu llochesi bysiau newydd yn lle hen rai. Rydyn ni o'r farn, pe bai awdurdodau lleol yn cydweithio mewn Cyd-awdurdod, fe allen nhw:

- arbed arian;
- gwella'r ffordd y mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio.

**Rydyn ni eisiau defnyddio ein pwerau presennol i greu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth. Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel ein bod ni'n gallu:**

- **ysgrifennu canllawiau newydd a rhoi cyfarwyddiadau i Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth ynglŷn â sut y maen nhw'n gwneud eu swyddogaethau;**
- **gwneud yn siŵr bod Gweinidogion Cymru'n cael dweud eu dweud ynglŷn â sut y mae Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth yn gweithio nawr ac yn y dyfodol.**

? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

**Rydyn ni o'r farn bod yna ddwy ffordd wahanol y gallen ni sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth:**

**A. Un Cyd-awdurdod cenedlaethol.** Fe fyddai hwn yn cwmpasu Cymru gyfan, ond fe fyddai ganddo fyrddau (pwyllgorau) rhanbarthol hefyd a fyddai'n gweithredu mewn cysylltiad ag ardaloedd llai Cymru;

**B. Un Cyd-awdurdod cenedlaethol a thri Chyd-awdurdod rhanbarthol (4 Cyd-awdurdod i gyd).** Fe fyddai'r tri Chyd-awdurdod rhanbarthol yn gofalu am drafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal nhw o Gymru, ac fe fyddai'r Cyd-awdurdod cenedlaethol yn eu cefnogi.


? Pa strwythur sydd orau gennych chi?

☐ A. Un Cyd-bwyllgor cenedlaethol yn cwmpasu Cymru gyfan;

☐ B. Un Cyd-bwyllgor cenedlaethol a thri Chyd-bwyllgor rhanbarthol;

☐ C. Oes yna unrhyw strwythur arall y gallen ni ei ddefnyddio ar gyfer y Cyd-awdurdodau?

Pam?



## Cynnig 2

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol weithio'n well â chwmnïau bysiau i ddarparu gwell gwasanaethau bysiau.
Er mwyn i hyn ddigwydd, rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol allu llunio Partneriaethau Ansawdd Uwch.

**Pam?**

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn gallu nodi beth y maen nhw'n disgwyl i gwmni bysiau ei wneud mewn Partneriaeth Ansawdd. Yn gyfnewid am wneud beth y mae gofyn iddyn nhw ei wneud, mae cwmnïau bysiau'n cael defnyddio cyfleusterau y mae awdurdodau lleol wedi'u darparu, er enghraifft, lonydd bysiau newydd.

Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i gwmnïau bysiau ddod yn rhan o'r partneriaethau hyn, ac maen nhw'n rhydd i benderfynu pa wasanaethau bysiau y maen nhw'n eu rhedeg. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gallu rhoi'r gorau i wasanaeth neu newid amserlen os ydyn nhw eisiau gwneud hynny. Mae hyn weithiau'n golygu bod cymunedau'n colli gwasanaethau bysiau sydd eu hangen arnyn nhw.

**Rydyn ni eisiau** i awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau gydweithio i wella'r gwasanaethau bysiau sy'n cael eu darparu. Er mwyn annog gweithio mewn partneriaeth fel hyn, rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol allu llunio **Partneriaethau Ansawdd Uwch.**

i Fe fyddai Partneriaethau Ansawdd Uwch yn cael eu datblygu trwy awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau'n cydweithio. Fe fydden nhw'n nodi unrhyw broblemau â'r gwasanaethau bysiau mewn ardal ac yn cytuno ar gamau gweithredu eang eu hystod i ddatrys y problemau hyn a gwella gwasanaethau.

Er enghraifft, fe allen nhw gytuno pa wasanaethau bysiau ddylai redeg mewn ardal, ac ar ba amseroedd; pa wasanaethau ddylai fod ar gael ar fysiau, er enghraifft WiFi ac ati; a pha fathau o docynnau ddylai fod ar gael i deithwyr.



? Ydych chi'n meddwl bod angen Partneriaethau Ansawdd Uwch arnon ni?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

# Cynnig 3

## Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol allu masnachfreinio gwasanaethau bysiau.

Trefniad ydy masnachfreinio lle rydych chi'n rhoi'r hawl i un cwmni bysiau yn unig i redeg gwasanaeth bysiau. Dan drefniadau o'r fath, nid ydy cwmnïau bysiau eraill yn cael rhedeg yr un gwasanaeth.

**Pam?**

Rydyn ni o'r farn y dylai awdurdodau lleol allu penderfynu pa drefniadau ddylai fod ar waith i sicrhau bod y gwasanaethau bysiau iawn yn cael eu darparu yn eu hardaloedd, ac rydyn ni o'r farn y dylai masnachfreinio fod yn un o'r opsiynau y gallen nhw ei ddewis.

Os y byddai yna fasnachfraint ar waith, fe fyddai'n bosibl gosod llwybrau ac amserlenni bysiau, ac fe fyddai'r brand a'r mathau o docynnau yr un fath.

Os y byddai cwmni bysiau wedi cael contract masnachfraint i redeg gwasanaeth, fyddai cwmnïau bysiau eraill ddim yn cael rhedeg yr un gwasanaeth.

**Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel bod awdurdodau lleol yn gallu masnachfreinio gwasanaethau bysiau lle bo angen hynny.**

Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da i awdurdodau lleol gael yr opsiwn i fasnachfreinio gwasanaethau bysiau?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?



# Cynnig 4

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol allu sefydlu a rhedeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain.

**Pam?**

Ar hyn o bryd, nid ydy'r gyfraith yn gadael i awdurdodau lleol redeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain, heblaw mewn rhai achosion arbennig.

Mae hyn weithiau'n gallu achosi problemau i awdurdodau lleol lle mae angen rhedeg gwasanaethau bysiau yn eu hardal a does yna yr un cwmni bysiau sydd eisiau rhedeg y gwasanaethau hynny. Nid ydy'r awdurdod lleol yn gallu camu i mewn i lenwi'r bwlch mewn gwasanaethau ac felly dydy pobl sydd fel rheol yn dibynnu ar y gwasanaethau bysiau hynny i deithio o gwmpas ddim yn gallu gwneud hynny ac yn aml, yn y diwedd, maen nhw'n cael eu hynysu.

Mae problemau hefyd yn gallu codi lle nad oes yna lawer o gwmnïau bysiau sydd eisiau rhedeg gwasanaethau bysiau mewn ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn aml yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gorfod talu mwy am y gwasanaethau nag y buasen nhw wedi'i dalu pe bai yna lawer o gwmnïau'n cystadlu i redeg y gwasanaeth ac yn cynnig prisiau is.

Os y byddwn ni'n newid y gyfraith, fe fydd awdurdodau lleol yn gallu dewis rhedeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain. Fe allen nhw wneud hyn am unrhyw reswm, fel llenwi bylchau mewn gwasanaethau neu weithredu fel unrhyw gwmni bysiau arall a rhedeg gwasanaethau bysiau i wneud arian.

**Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel bod awdurdodau lleol yn gallu rhedeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain.**

? Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol allu rhedeg eu gwasanaethau bysiau eu hunain?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?



# Cynnig 5

## Rydyn ni eisiau newid yr oedran ar gyfer pasys bws rhad ac am ddim. Ni fydd unrhyw un sydd â phàs bws yn barod yn ei golli.

**Pam?**

Ar hyn o bryd, mae unrhyw un sy'n 60 oed neu'n hŷn yn gallu cael pàs bws sy'n golygu eu bod nhw'n gallu teithio unrhyw le yng Nghymru yn rhad ac am ddim. Gan fod y pasys bws yn boblogaidd iawn, mae'r cynllun yn dod yn ddrytach i'w redeg bob blwyddyn.

Un o'r ffyrdd rydyn ni'n meddwl am arbed arian ydy gwneud yr oedran ar gyfer teithio'n rhad ac am ddim ar fysiau yr un fath ag oedran pensiwn menyw. Rydyn ni wedi dewis oedran pensiwn menyw oherwydd bod menywod ar hyn o bryd yn cael eu pensiwn cyn dynion, felly mae hyn yn golygu y bydd dynion a menywod yn derbyn eu pàs bws ar yr un oedran.

Fe fydd unrhyw un sydd â phàs yn barod yn ei gadw, a bydd yn gallu parhau i ddal unrhyw fws unrhyw le yng Nghymru. Fe fydden ni'n cyflwyno'r newid yn raddol dros amser i ganiatáu i bobl ddod i arfer â'r rheolau newydd.

Os y bydd y newid hwn yn arbed arian i ni, fe fydden ni'n ystyried rhoi'r arian hwnnw tuag at gynlluniau pasys bws eraill, fel cynllun i bobl ifanc.

**Rydyn ni eisiau newid yr oedran ar gyfer teithio'n rhad ac am ddim ar fysiau.**

? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da newid yr oedran y mae rhywun yn gallu cael pàs bws i deithio'n rhad ac am ddim yng Nghymru?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?



# Cynnig 6

## Rydyn ni eisiau i wybodaeth am wasanaethau bysiau gael ei rhannu'n well.

**Pam?**

Mae angen gwybodaeth am wasanaethau bysiau ar deithwyr fel eu bod nhw'n gallu defnyddio bysiau pan mae angen hynny, a chynllunio'u siwrneion.

Mae angen gwybodaeth am wasanaethau bysiau ar awdurdodau lleol i gynllunio'u swyddogaethau ac i gefnogi eu cymunedau. Mae angen gwybodaeth am wasanaethau bysiau ar bobl eraill, fel y rheini sy'n dylunio apiau, fel eu bod nhw'n gallu datblygu apiau teithio ac ati sy'n darparu'r wybodaeth fanwl gywir ddiweddaraf i deithwyr.

Mae'n rhaid i wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am amserlenni a llwybrau, fod yn glir, yn gyfoes ac yn hawdd dod o hyd iddi.

**Rydyn ni eisiau newid y gyfraith:**

- **fel bod yna fwy o wybodaeth ar gael am wasanaethau bysiau;**
- **i'w gwneud hi'n ofynnol i weithredwyr bysiau rannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol pan maen nhw'n newid unrhyw wasanaethau bysiau.**



? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

# Rhan 2 – Tacsis a cherbydau hurio preifat

Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn rhan bwysig o rwydwaith trafnidiaeth Cymru.

> Mae tacsis yn gerbydau sy'n cael codi teithwyr o safleoedd tacsis a'r stryd, ac mae modd eu harchebu ymlaen llaw dros y ffôn, trwy'r Rhyngrwyd neu drwy ddefnyddio ap. Mae'n rhaid archebu cerbydau hurio preifat ymlaen llaw.

Maen nhw'n aml yn gweithio mewn ardaloedd gwledig lle nad oes gan gymunedau drenau neu fysiau rheolaidd.

Maen nhw'n helpu pobl anabl, pobl sydd heb gar, a phobl sy'n dod adref ar ôl noson allan.


Yn 2018 yng Nghymru, roedd yna:

- ryw **5,000** o dacsis;
- **4,900** o gerbydau hurio preifat;
- **12,000** o yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat â thrwydded.

Er bod tacsis a cherbydau hurio preifat yn hollbwysig i fywydau llawer o bobl yng Nghymru, y gred ydy bod y system o'u trwyddedu ar ei hôl hi. Er enghraifft:

- mae'r cerbydau'n gallu bod yn wahanol iawn o un ardal awdurdod lleol i un arall;
- mae'n anodd i deithwyr fod yn hyderus bod pob cerbyd yn ddiogel;
- mae'n bosibl i rywun ddylai beidio â chael trwydded gael un;
- mae'n gallu bod yn anodd mynd â thrwydded oddi ar yrrwr pan mae wedi gwneud rhywbeth drwg.

> Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau rydyn ni'n eu gwneud yn gwella safonau tacsis a cherbydau hurio preifat ledled Cymru, ac yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.



## Cynnig 1

Rydyn ni eisiau creu safonau cenedlaethol newydd ar gyfer pob tacsi a cherbyd hurio preifat.

**Pam?**

Mae gan Gymru 22 o awdurdodau lleol. Mae gan bob un ohonyn nhw safonau gwahanol ar gyfer y trwyddedau y maen nhw'n eu rhoi i dacsis a cherbydau hurio preifat. Mae'n bosibl y bydd tacsi neu gerbyd hurio preifat yn cael gwrthod trwydded mewn un ardal, ond y bydd yn gallu gwneud cais am drwydded, a'i chael, mewn ardal arall. Unwaith y mae gan dacsi neu gerbyd hurio preifat drwydded, mae'n gallu (ar y cyfan) gweithio mewn unrhyw ardal. Mae hyn yn golygu bod un ardal yng Nghymru'n gallu bod â llawer o gerbydau ynddi sy'n dilyn llawer o wahanol setiau o reolau.

Mae gan yr awdurdodau lleol hefyd wahanol safonau ar gyfer gyrwyr. Mae'n rhaid i bob gyrrwr ddangos ei fod yn 'addas a phriodol' i weithio, ond nid oes yna unrhyw ddiffiniant pendant o 'addas a phriodol'. Mae pob awdurdod lleol yn cael penderfynu union ystyr y geiriau hynny.

Mae'r amrywiadau hyn yn broblem o ran diogelwch. Ar hyn o bryd, fe allai teithwyr sy'n defnyddio tacsis neu gerbydau hurio preifat mewn un ardal fod yn llai diogel nag mewn ardal arall. Fe ddylai fod yn rhaid i bob cerbyd a gyrrwr ddilyn yr un rheolau.

**Rydyn ni eisiau:**

- **safonau cenedlaethol;**
- **i bob awdurdod lleol ddilyn y safonau hynny wrth roi trwyddedau;**
- **i bob tacsi a cherbyd hurio preifat orfod bodloni'r safonau i gael trwydded i weithio.**

i Un o'r safonau cenedlaethol rydyn ni'n ei hystyried ydy safon genedlaethol sy'n atal y cerbydau hynny sy'n llygru fwyaf rhag cael trwydded i fod yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat.

? Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn rhaid i bob awdurdod lleol fabwysiadu'r un safonau wrth roi trwyddedau tacsis/cerbydau hurio preifat?


☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n syniad da cael safon genedlaethol ynglŷn â llygredd cerbydau?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?



## Cynnig 2

Rydyn ni eisiau rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol weithredu yn erbyn unrhyw dacsi neu gerbyd hurio preifat os oes angen iddyn nhw wneud hynny.

**Pam?**

Mae awdurdodau lleol yn rhoi trwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat. Maen nhw'n gallu gwirio cerbydau a delio â chwynion teithwyr. Ond dydyn nhw ddim yn gallu mynd â thrwydded oddi ar dacsi neu gerbyd hurio preifat oni bai mai nhw wnaeth roi'r drwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat yn y lle cyntaf.

Er enghraifft – os y bydd gyrrwr tacsi neu gerbyd hurio preifat yn gwneud rhywbeth drwg yn ardal Awdurdod Lleol A, ond y cafodd ei drwydded oddi wrth Awdurdod Lleol B, dydy Awdurdod Lleol A ddim yn gallu gwneud rhyw lawer ynglŷn â'r peth.

Mae hyn yn broblem o ran diogelwch. Ar hyn o bryd, mae p'un a ydy gyrrwr tacsi neu gerbyd hurio preifat yn cael ei gosbi ai peidio'n dibynnu ar lle mae'r cerbyd pan mae'r gyrrwr yn gwneud rhywbeth drwg. Os ydy gyrrwr yn gwneud rhywbeth drwg mewn unrhyw ardal, yna fe ddylai'r canlyniadau fod yr un fath.

**Rydyn ni eisiau rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol fynd â thrwydded oddi ar unrhyw dacsi neu gerbyd hurio preifat (ac nid dim ond un y maen nhw wedi'i rhoi eu hunain), os oes angen iddyn nhw wneud hynny.**

? Ydych chi'n meddwl y dylai pob awdurdod lleol allu mynd â thrwydded oddi ar unrhyw dacsi neu gerbyd hurio preifat? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

## Cynnig 3

Rydyn ni eisiau creu cronfa ddata genedlaethol sy'n dal gwybodaeth am bob trwydded yng Nghymru.

**Pam?**

Mae gan bob awdurdod lleol wybodaeth am drwyddedau y maen nhw'n eu rhoi, yn eu gwahardd dros dro neu'n eu tynnu yn ôl. Ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid rhannu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn golygu dydy awdurdodau lleol ddim yn gwybod os ydy tacsi neu gerbyd hurio preifat (neu ei yrrwr) wedi cael gwrthod trwydded mewn ardal arall.

Rydyn ni'n gwybod bod y mwyafrif o yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn gweithio'n galed i roi gwasanaeth diogel i deithwyr. Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol allu sylwi ar y rhai sydd ddim yn gwneud hyn. Mae angen rhannu gwybodaeth i gadw teithwyr yn ddiogel.

**Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol rannu eu gwybodaeth am drwyddedau â'i gilydd.**

? Ydych chi'n meddwl y dylai pob awdurdod lleol allu rhannu gwybodaeth am drwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pam?

# Cynnig 4

Rydyn ni'n meddwl am y ffordd orau i gyflawni Cynigion 1-3. Rydyn ni'n ystyried caniatáu i awdurdod trwyddedu cenedlaethol newydd (sef Cyd-awdurdod Trafnidiaeth) drwyddedu pob tacsi a cherbyd hurio preifat yng Nghymru.

**Pam?**

Mae yna lawer o benderfyniadau i awdurdod lleol eu gwneud wrth drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Mae hyn yn costio amser ac arian i bob awdurdod lleol. Mae pob awdurdod lleol unigol yn perfformio llawer o'r un tasgau, er enghraifft, gosod prisiau siwrneion a ffioedd a phenderfynu p'un a ddylen nhw dynnu trwydded yn ôl. Rydyn ni o'r farn, os y bydd yna awdurdod trwyddedu cenedlaethol yng Nghymru, sef Cyd-awdurdod Trafnidiaeth, y bydd hynny'n gwneud pethau'n haws yn hyn o beth. Fe fyddai hyn yn golygu:

- y gallai un awdurdod (yn lle 22) drwyddedu pob tacsi a cherbyd hurio preifat;
- y gallai un awdurdod (yn lle 22) benderfynu a ddylid tynnu trwydded yn ôl ai peidio;
- y gallai un awdurdod (yn lle 22) ddal yr holl wybodaeth am drwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat;
- y byddai Cymru gyfan yn dod yn un ardal drwyddedu (yn lle 22).

**Dyma Opsiwn A.**

Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod bod gan awdurdodau lleol lawer o wybodaeth am dacsis a cherbydau hurio preifat. Efallai y byddai hi'n well pe baen nhw'n parhau i benderfynu ynglŷn â thrwyddedau tacsis a cherbydau hurio preifat. Rydyn ni felly hefyd yn ystyried Opsiwn B.

Fe fyddai **Opsiwn B** yn golygu y byddai awdurdodau lleol yn parhau i roi trwyddedau, ond yn fwy cyson â'i gilydd nag y maen nhw ar hyn o bryd. Fe fyddai'n rhaid iddyn nhw i gyd ddilyn un set o safonau cenedlaethol; fe fyddai'n rhaid iddyn nhw i gyd rannu gwybodaeth â'i gilydd; ac fe fydden nhw'n gallu tynnu trwydded yn ôl hyd yn oes os mai awdurdod arall oedd wedi'i rhoi.

**Rydyn ni o'r farn mai Opsiwn A ydy'r un gorau.**

Ydych chi'n meddwl y dylai tacsis a cherbydau hurio preifat gael eu trwyddedu gan:

☐ A. awdurdod trwyddedu cenedlaethol newydd (Cyd-awdurdod Trafnidiaeth) ar gyfer Cymru gyfan (Opsiwn A)?

☐ B. 22 awdurdod lleol Cymru (Opsiwn B)?

Pam?



## Diolch am ddarllen hwn

Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am hyn?

Anfonwch eich atebion i:

TrafnidiaethGyhoeddus.Ymgysylltu2019@llyw.cymru

Tîm Ennyn Diddordeb mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

erbyn 27 Mawrth 2019

Gallwch chi ddarllen Papur Gwyn llawn Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) yma:
llyw.cymru/gwella-trafnidiaeth-gyhoeddus

